



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 62 (Cy.11)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

**Rheoliadau Gwartheg Hŷn
(Gwaredu) (Cymru) 2006**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi gofynion penodol Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 716/96 fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2109/2005, sy'n mabwysiadu mesurau cymorth eithriadol ar gyfer y farchnad cig eidion yn y Deyrnas Unedig. Mae Rheoliad y Comisiwn (fel y'i diwygiwyd) yn cyflwyno cynllun sy'n awdurdodi'r Deyrnas Unedig i brynu unrhyw anifail buchol a anwyd neu a fagwyd yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996 nad yw'n arddangos unrhyw arwydd clinigol o BSE ac a oedd, yn ystod cyfnod o chwe mis o leiaf cyn ei werthu, yn bresennol ar ddaliad a leolir ar diriogaeth y Deyrnas Unedig. Pennir amryw o ofynion o ran cigydda, trin a gwaredu anifeiliaid sy'n ddarostyngedig i'r cynllun.

Mae rheoliad 3 yn creu tramgwyddau o ran torri darpariaethau Rheoliad y Comisiwn (fel y'i diwygiwyd) y cyfeirir atynt yng Ngholofn 1 (ac a ddisgrifir yng Ngholofn 2) o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn. Mae rheoliad 4 yn darparu y bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu gorfodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a rhaid iddo benodi arolygwyr at y diben hwn. Mae rheoliadau 5 i 8 yn rhoi'r manylion am bwerau'r arolygwyr hynny, a chanlyniadau methu cydymffurfio â'r arolygwyr, neu eu rhwystro. O dan reoliad 9, mae torri'r Rheoliadau yn dramgwydd sy'n dwyn cosb ar gollfarn ddiannod o ddirwy hyd at yr uchafswm statudol, sef £5,000 ar hyn o bryd, neu dri mis yn y carchar. O gollfarnu ar dditiad, dirwy heb derfyn neu ddwy flynedd yn y carchar yw'r gosb.

Ni pharatowyd arfarniad rheoliadol llawn ar gyfer yr offeryn hwn, gan na fydd yn effeithio ar gostau busnes.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 62 (W.11)

AGRICULTURE, WALES

**Older Cattle (Disposal) (Wales)
Regulations 2006**

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations make provision for the enforcement of certain of the requirements of Commission Regulation (EC) No 716/96 as amended by Commission Regulation (EC) No 2109/2005, adopting exceptional support measures for the beef market in the United Kingdom. The Commission Regulation (as amended) introduces a scheme authorising the United Kingdom to purchase any bovine animal born or reared within the United Kingdom before 1 August 1996 which does not exhibit any clinical sign of BSE and which was, during a period of at least six months prior to its sale, present on a holding located in United Kingdom territory. Various requirements are specified as to the slaughter, treatment and disposal of animals subject to the scheme.

Regulation 3 creates offences in respect of breaches of the provisions of the Commission Regulation (as amended) referred to in Column 1 (and described in Column 2) of the Schedule to these Regulations. Regulation 4 provides that these Regulations are to be enforced by the National Assembly for Wales which must appoint inspectors for this purpose. Regulations 5 to 8 detail the powers of those inspectors, and the consequences of failure to comply with, or of obstructing, the inspectors. Under regulation 9, breach of the Regulations is an offence punishable on summary conviction by a fine up to the statutory maximum, currently £5,000, or three months imprisonment. On indictment the penalty is an unlimited fine or two years imprisonment.

A full regulatory appraisal has not been produced for this instrument as it has no impact on the costs of business.

2006 Rhif (Cy.)**2006 No. (W.)****AMAETHYDDIAETH, CYMRU****AGRICULTURE, WALES****Rheoliadau Gwartheg Hŷn
(Gwaredu) (Cymru) 2006****Older Cattle (Disposal) (Wales)
Regulations 2006***Wedi'u gwneud**18 Ionawr 2006**Made**18 January 2006**Yn dod i rym**23 Ionawr 2006**Coming into force**23 January 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(2) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

The National Assembly for Wales is designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to the common agricultural policy of the European Community.

Gan arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn-

Exercising the powers conferred on it by that section, the National Assembly for Wales makes the following Regulations-

Enwi, cychwyn a chymhwyso**Title, commencement and application**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwartheg Hŷn (Gwaredu) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 23 Ionawr 2006.

1.-(1) The title of these Regulations is the Older Cattle (Disposal) (Wales) Regulations 2006 and they will come into force on 23 January 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Dirymu**Revocation**

2. Dirymir Rheoliadau Anifeiliaid Buchol (Gorfodi Cynllun Prynu'r Gymuned) 1996(3) i'r graddau y maent yn gymwys yng Nghymru.

2. The Bovine Animals (Enforcement of Community Purchase Scheme) Regulations 1996(3) are revoked in so far as they apply in Wales.

Tramgwyddau**Offences**

3.-(1) Mewn lladd-dy, os eir yn groes i neu os methir cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 716/96 ar 19 Ebrill 1996 ("y Rheoliad Comisiwn") sy'n mabwysiadu mesurau cymorth eithriadol ar gyfer y farchnad cig eidion yn y Deyrnas Unedig(4) y cyfeirir ati yn Rhan I o'r Atodlen, bydd gweithredydd y lladd-dy yn euog o dramgwydd.

3.-(1) Where there is, in a slaughterhouse, a contravention of, or failure to comply with, any provision of Commission Regulation (EC) No. 716/96 of 19 April 1996 ("the Commission Regulation") adopting exceptional support measures for the beef market in the United Kingdom(4) referred to in Part I of the Schedule, the slaughterhouse operator is guilty of an offence.

(1) O.S. 2005/2766.

(2) 1972, p. 68.

(3) O.S. 1996/1193.

(4) OJ Rhif L99, 20.4.96, t.14, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2109/2005 (OJ Rhif L 337, 22.12.2005, t.25).

(1) S.I. 2005/2766.

(2) 1972, c. 68.

(3) S.I. 1996/1193.

(4) OJ No. L 99, 20.4.96, p.14 as amended by Commission Regulation (EC) No 2109/2005 (OJ No.337, 22.12.2005, p.25).

(2) Mewn mangre lle y ceir hylosgydd neu mewn safle prosesu, os eir yn groes i neu os methir cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth y cyfeirir ati yn Rhan II o'r Atodlen, bydd gweithredydd y fangre honno yn euog o dramgwydd.

Gorfodi a phenodi arolygwyr

4. Mae'r Rheoliadau i'w gorfodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a rhaid iddo benodi arolygwyr at ddibenion y Rheoliadau hyn.

Pwerau mynediad a phwerau arolygwyr

5.-(1) Mae gan arolygydd, wedi iddo ddangos, os gofynnir iddo wneud hynny, rhyw ddogfen a ddilyswyd yn briodol ac sy'n dangos ei awdurdod ef neu hi, hawl ar bob adeg resymol i fynd ar unrhyw dir neu i unrhyw fangre er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau hyn a'r Rheoliad Comisiwn; ac yn y rheoliad hwn mae "mangre" yn cynnwys unrhyw gerbyd neu gynhwysydd.

(2) Caiff arolygydd-

- (a) atafaelu unrhyw sgil-gynhyrchion anifeiliaid a'u gwaredu yn ôl yr angen;
- (b) cyflawni unrhyw ymholiadau, archwiliadau a phroffion;
- (c) cymryd unrhyw samplau;
- (ch) mynd at, ac archwilio a chopio unrhyw gofnodion (ar ba ffurf bynnag y cedwir hwy) sy'n cael eu cadw o dan y Rheoliadau hyn neu'r Rheoliad Comisiwn, neu fynd â'r cofnodion hynny oddi yno i'w gwneud yn bosibl eu copïo;
- (d) mynd at, archwilio a gwirio gweithrediad, unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig sy'n cael ei ddefnyddio neu wedi'i ddefnyddio mewn cysylltiad â'r cofnodion; ac at y diben hwn caiff ofyn i unrhyw berson sydd â gofal dros y cyfrifiadur, y cyfarpar neu'r deunydd, neu sydd fel arall yn ymwneud â'u gweithredu, i roi i'r arolygydd unrhyw gymorth y bydd yn rhesymol i'r arolygydd ofyn amdano (gan gynnwys rhoi iddo'r cyfrineiriau angenrheidiol) ac, os cedwir cofnod drwy gyfrwng cyfrifiadur, caiff ofyn i'r cofnodion gael eu cyflwyno ar ffurf sy'n caniatáu mynd â hwy oddi yno;
- (dd) marcio unrhyw anifail, sgil-gynnyrch anifail neu beth arall at ddibenion eu hadnabod; ac
- (e) mynd ag unrhyw berson arall gydag ef, y mae ef neu hi o'r farn bod ei angen.

(3) Bydd unrhyw berson sy'n difwyno, difodi neu dynnu unrhyw farc a osodwyd o dan baragraff (2)(dd) yn euog o dramgwydd.

(2) Where there is, at premises housing an incinerator or at a processing plant, a contravention of, or failure to comply with, any provision referred to in Part II of the Schedule, the operator of those premises is guilty of an offence.

Enforcement and appointment of inspectors

4. These Regulations are to be enforced by the National Assembly for Wales, which must appoint inspectors for the purposes of these Regulations.

Powers of entry and inspectors' powers

5.-(1) An inspector on producing, if so required, some duly authenticated document showing his or her authority, has a right at all reasonable hours, to enter any land or premises for the purpose of ensuring that these Regulations and the Commission Regulation are being complied with; and in this regulation "premises" includes any vehicle or container.

(2) An inspector may-

- (a) seize any animal by-products and dispose of them as necessary;
- (b) carry out any inquiries, examinations and tests;
- (c) take any samples;
- (d) have access to, and inspect and copy any records (in whatever form they are held) kept under these Regulations or the Commission Regulation, or remove those records to enable them to be copied;
- (e) have access to, inspect and check the operation of, any computer and any associated apparatus or material which is or has been in use in connection with the records; and for this purpose may require any person having charge of, or otherwise concerned with the operation of, the computer, apparatus or material to give him or her any assistance he or she may reasonably require (including providing him or her with any necessary passwords) and, where a record is kept by means of a computer, may require the records to be produced in a form in which they may be taken away;
- (f) mark any animal, animal by-product or other thing for identification purposes; and
- (g) take any other persons with him or her, as he or she considers necessary.

(3) Any person who defaces, obliterates or removes any mark applied under paragraph (2)(f) is guilty of an offence.

(4) Os bydd arolygydd yn mynd i unrhyw fangre nad yw wedi'i meddiannu rhaid iddo ei gadael wedi'i diogelu mor effeithiol rhag mynediad diawdurdod ag ydoedd pan aeth ef neu hi yntaf.

Rhwystro

6. Mae unrhyw berson yn euog o dramgwydd os yw ef neu hi-

- (a) yn fwriadol yn rhwystro unrhyw berson sy'n rhoi'r Rheoliadau hyn ar waith;
- (b) yn methu, heb achos rhesymol, â rhoi i unrhyw berson sy'n rhoi'r Rheoliadau hyn ar waith unrhyw gymorth neu wybodaeth y gall y person hwnnw ofyn yn rhesymol amdano neu amdani er mwyn cyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn;
- (c) yn rhoi i unrhyw berson sy'n rhoi'r Rheoliadau hyn ar waith unrhyw wybodaeth y mae'r person hwnnw sy'n rhoi'r wybodaeth yn gwybod ei bod yn dwyllodrus neu'n gamarweiniol; neu,
- (ch) yn methu â dangos cofnod, pan ofynnir iddo wneud hynny, i unrhyw berson sy'n rhoi'r Rheoliadau hyn ar waith.

Hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i waredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid

7. Os yw arolygydd yn ystyried ei bod yn angenrheidiol er mwyn iechyd anifail neu iechyd cyhoeddus neu os oes unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn neu'r Rheoliad Comisiwn nas cydymffurfir â hi, caiff ef neu hi gyflwyno hysbysiad i unrhyw berson sydd â sgil-gynnyrch anifeiliaid yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth yn ei gwneud yn ofynnol iddo ef neu hi ei waredu fel a benno yn yr hysbysiad (ac os oes angen, pennu sut i'w storio cyn ei waredu).

Cydymffurfio â hysbysiadau

8.-(1) Rhaid cydymffurfio ag unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan y Rheoliadau hyn ar draul y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo, ac os na chydymffurfir ag ef, caiff arolygydd drefnu cydymffurfedd ag ef ar draul y person hwnnw.

(2) Bydd unrhyw berson y cyflwynir hysbysiad iddo ac sy'n mynd yn groes i ddarpariaethau'r hysbysiad hwnnw neu'n methu â chydymffurfio ag ef yn euog o dramgwydd.

Cosbau

9.-(1) Mae person sy'n euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn atebol-

- (a) ar gollfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis, neu'r ddau, neu

(4) If an inspector enters any unoccupied premises he or she must leave them as effectively secured against unauthorised entry as he or she found them.

Obstruction

6. Any person is guilty of an offence if he or she-

- (a) intentionally obstructs any person executing these Regulations;
- (b) without reasonable cause, fails to give to any person executing these Regulations any assistance or information which that person may reasonably require of him or her for the performance of his or her functions under these Regulations;
- (c) provides any person executing these Regulations with any information which he or she knows to be false or misleading; or
- (d) fails to produce a record when required to do so to any person executing these Regulations.

Notice requiring the disposal of animal by-products

7. If an inspector considers it necessary for animal or public health purposes or if any provision of these Regulations or of the Commission Regulation is not being complied with, he or she may serve a notice on any person in possession or control of any animal by-product requiring him or her to dispose of it as may be specified in the notice (and if necessary specify how to store it pending disposal).

Compliance with notices

8.-(1) Any notice served under these Regulations must be complied with at the expense of the person on whom the notice is served, and if it is not complied with, an inspector may arrange for it to be complied with at the expense of that person.

(2) Any person on whom a notice is served who contravenes or fails to comply with the provisions of that notice is guilty of an offence.

Penalties

9.-(1) A person who is guilty of an offence under these Regulations is liable-

- (a) on summary conviction, to a fine not exceeding the statutory maximum or to imprisonment for a term not exceeding three months or both, or

- (b) ar gollfarn ar dditiad, i ddirwy neu garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na dwy flynedd, neu'r ddau.

(2) Os yw corff corfforaethol yn euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn, ac os profir bod y tramgwydd wedi'i wneud drwy gydsyniad neu ymoddefiad, neu wedi'i briodoli i unrhyw esgeulustod ar ran-

- (a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu berson arall tebyg yn y corff corfforaethol, neu
(b) unrhyw berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath,

bydd y person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o dramgwydd a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(3) At ddibenion paragraff (2) uchod, ystyr "cyfarwyddwr", mewn perthynas â chorff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.

- (b) on conviction on indictment, to a fine or to imprisonment for a term not exceeding two years or both.

(2) Where a body corporate is guilty of an offence under these Regulations, and that offence is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to have been attributable to any neglect on the part of-

- (a) any director, manager, secretary or other similar person of the body corporate, or
(b) any person who was purporting to act in any such capacity,

he or she, as well as the body corporate, is guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly.

(3) For the purposes of paragraph (2) above, "director", in relation to a body corporate whose affairs are managed by its members, means a member of the body corporate.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1).

18 Ionawr 2006

18 January 2006

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

YR ATODLEN

Rheoliad 3

DARPARIAETHAU RHEOLIAD Y COMISIWN (EC) RHIF 716/96

RHAN 1

DARPARIAETHAU SY'N GYMWYS I WEITHREDWYR LLADD-DAI

Darpariaeth Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 716/96 ("y Rheoliad Comisiwn")	Y pwnc
Erthygl 1(2)	Gofyniad bod pennau, organau mewnol a charcasau'n cael eu staenio'n barhaol
Erthygl 1(2)	Gofyniad bod deunyddiau a staeniwyd yn cael eu cludo mewn cynwysyddion a seliwyd i hylosgyddion awdurdodedig arbennig neu i weithfeydd rendro
Erthygl 1(2)	Gwahardd unrhyw ran o anifail a gigyddwyd o dan y Rheoliad Comisiwn rhag mynd i mewn i'r gadwyn fwyd ar gyfer pobl neu anifeiliaid na chael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchion cosmetig neu fferyllol
Erthygl 1(3)	Gofyniad nad oes unrhyw anifail buchol a fwriedir ei fwyta gan bobl yn bresennol mewn lladd-dy pan gigyddir anifeiliaid o dan y Rheoliad Comisiwn
Erthygl 1(3)	Gofyniad, pan fydd angen rhoi anifeiliaid sydd i'w cigydda o dan y Rheoliad Comisiwn mewn gwalfeydd cyn eu cigydda, eu bod yn cael eu cadw ar wahân i anifeiliaid buchol eraill a fwriedir eu bwyta gan bobl neu gan anifeiliaid
Erthygl 1(3)	Gofyniad, os yw'n angenrheidiol storio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a gigyddir o dan y Rheoliad Comisiwn, bod yn rhaid storio'r cynhyrchion hynny ar wahân i unrhyw gyfleuster storio a ddefnyddir ar gyfer cig neu gynhyrchion eraill a fwriedir eu bwyta gan bobl neu gan anifeiliaid

SCHEDULE

Regulation 3

PROVISIONS OF COMMISSION REGULATION (EC) NO 716/96

PART 1

PROVISIONS APPLICABLE TO OPERATORS OF SLAUGHTERHOUSES

Provision of Commission Regulation (EC) No. 716/96 ("the Commission Regulation")	Subject matter
Article 1(2)	Requirement that heads, internal organs and carcasses be permanently stained
Article 1(2)	Requirement that stained material be transported in sealed containers to specially authorised incinerators or rendering plants
Article 1(2)	Prohibition on any part of an animal slaughtered under the Commission Regulation entering the human or animal food chains or being used for cosmetic or pharmaceutical products
Article 1(3)	Requirement that no bovine animal intended for human consumption be present in a slaughterhouse when animals are being slaughtered under the Commission Regulation
Article 1(3)	Requirement that, where animals to be slaughtered under the Commission Regulation need to be put in lairage prior to slaughter, they are kept separate from bovine animals intended for human or animal consumption
Article 1(3)	Requirement that, where it is necessary to store products derived from animals slaughtered under the Commission Regulation, such products must be stored separately from any storage facility used for meat or other products intended for human or animal consumption

RHAN II

DARPARIAETHAU SY'N GYMWYS I WEITHREDWYR HYLOSGYDDION NEU WEITHFEYDD PROSESU

Darpariaeth Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 716/96 ("y Rheoliad Comisiwn")	Y pwnc
Erthygl 1(2)	Gofyniad bod deunydd a staeniwyd yn cael ei brosesu a'i ddifa
Erthygl 1(2)	Gwahardd unrhyw ran o anifail a gigyddwyd o dan y Rheoliad Comisiwn rhag mynd i mewn i'r gadwyn fwyd ar gyfer pobl neu anifeiliaid na chael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchion cosmetig neu fferyllol
Erthygl 1(3)	Gofyniad, os yw'n angenrheidiol storio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a gigyddir o dan y Rheoliad Comisiwn, bod yn rhaid storio'r cynhyrchion hynny ar wahân i unrhyw gyfleuster storio a ddefnyddir ar gyfer cig neu gynhyrchion eraill a fwriedir eu bwyta gan bobl neu gan anifeiliaid

PART II

PROVISIONS APPLICABLE TO OPERATORS OF INCINERATORS OR PROCESSING PLANTS

Provision of Commission Regulation (EC) No. 716/96 ("the Commission Regulation")	Subject matter
Article 1(2)	Requirement that stained material be processed and destroyed
Article 1(2)	Prohibition on any part of an animal slaughtered under the Commission Regulation entering the human or animal food chains or being used for cosmetic or pharmaceutical products
Article 1(3)	Requirement that, where it is necessary to store products derived from animals slaughtered under the Commission Regulation, such products must be stored separately from any storage facility used for meat or other products intended for human or animal consumption

2006 Rhif 62 (Cy.11)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Gwartheg Hŷn
(Gwaredu) (Cymru) 2006

2006 No. 62 (W.11)

AGRICULTURE, WALES

Older Cattle (Disposal) (Wales)
Regulations 2006

©© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.00


W240//02/06

ON

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091271-3



9 780110 912714